Jayne Bryant AC
Cadeirydd y Pwyllgor Safonau Ymddygiad
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

22 Mawrth 2019

Annwyl Jayne

**Deiseb P-05-818 Cyflwyno Cofrestr o Lobïwyr yng Nghymru**

Mae'r Pwyllgor Deisebau wedi bod yn ystyried y ddeiseb uchod ers mis Gorffennaf 2018.

Y tro diwethaf i ni ystyried y ddeiseb oedd yn ein cyfarfod ar 5 Mawrth a chytunwyd y dylwn ysgrifennu atoch i ofyn:

- am amlinelliad o unrhyw ystyriaeth y mae'r Pwyllgor wedi'i rhoi'n flaenorol i'r manteision o gyflwyno cofrestr statudol o lobïwyr yng Nghymru;
- a wnaeth y Pwyllgor edrych ar fodelau ar gyfer cofrestru lobïwyr a ddefnyddir mewn mannau eraill, gan gynnwys Senedd Ewrop;
- a roddwyd ystyriaeth i'r posibilrwydd o godi tâl ar unigolion neu sefydliadau i gofrestru er mwyn rheoli'r gost o gyflwyno'r mesur yma; ac
- am wybodaeth am unrhyw waith pellach y mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn bwriadu ei wneud ynghylch y mater hwn.

Mae rhagor o wybodaeth am y ddeiseb, gan gynnwys y testun llawn a'r ohebiaeth a ddaeth i law hyd yn hyn, ar gael ar y wefan yn: **http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=21900&Opt=0**

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech anfon eich ymateb drwy neges e-bost at y tîm clercio yn ***SeneddDeisebau@cynulliad.cymru***.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch â thîm clercio'r Pwyllgor yn y cyfeiriad e-bost uchod, neu ar 0300 200 6379.

Yn gywir

Janet

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddDeisebau@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddDeisebau
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddPetitions@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddPetitions
0300 200 6565